| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Cabinet |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 6 Mehefin 2017 |
| Swyddog Arweiniol: | Rebecca Maxwell - Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a’r Parth Cyhoeddus |
| Awdur yr Adroddiad: | Tania Silva - Rheolwr Fframwaith |
| Teitl: | Adnewyddu Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru |

1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Cyngor Sir Ddinbych yw’r awdurdod arweiniol am reoli Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru, a sefydlwyd yn 2014, yn bennaf i adeiladu adeiladau ysgolion newydd, neu ailfodelu neu ailwampio adeiladau ysgolion cyfredo, o dan y Rhaglen Ysgolion y 21 Ganrif. Mae’r fframwaith yn bartneriaeth rhwng chwe chyngor Gogledd Cymru, ond mae hefyd wedi cael ei ddefnyddio gan sefydliadau sector cyhoeddus eraill yn y rhanbarth i ddarparu rhai o’u prosiectau adeiladu. Mae’r cytundeb fframwaith cyfredol yn dod i ben fis Mai 2018, ac mae'r adroddiad hwn yn amlinellu’r dull arfaethedig ar gyfer adnewyddu’r Cytundeb Fframwaith.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad i ddechrau ar gaffael cenhedlaeth nesaf Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru, ar sail yr Achos Busnes sydd yn Atodiad 1. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i’r Cabinet yn y dyfodol i adrodd ar ganlyniad yr ymarfer caffael.

3. Beth yw’r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn cadarnhau'r dull a amlinellwyd i gaffael cenhedlaeth nesaf Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru; a

3.2 bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o’i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Trefniadau Fframwaith Cyfredol

Bod y Fframwaith cyfredol yn darparu mecanwaith symlach a chost-effeithiol i sicrhau contractwyr i adeiladu ysgolion newydd ac adeiladau cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae chwe chontractwr ar y Fframwaith - Beatty, Galliford Try, Kier, Read Construction, Wilmot Dixon a Wynne Construction – a hyd yma mae 20 prosiect “byw” yn mynd rhagddynt ar draws y rhanbarth, gwerth mwy na £200 miliwn.
O fewn Sir Ddinbych, y prosiectau a ddarperir o dan y fframwaith yw:

- Ysgol gynradd newydd, Rhuthun - Wynne Construction (£8.5 Miliwn)
- Glan y Môr y Rhyl - Wynne Construction (£7.4 M mewn 2 gam)
- Estyniad ac ailwampio Ysgol Glan Clwyd - Wilmot Dixon (£13.9 M)
- Ysgol Ffydd y Rhyl – nid yw’r contract wedi'i osod eto

Un o brif fanteision y dull fframwaith, yr ydym am geisio ei gadw a'i wella o dan y trefniadau fframwaith newydd, yw darparu manteision cymunedol. O’r 20 prosiect sy’n mynd rhagddynt ar hyn o bryd o dan y fframwaith yng Ngogledd Cymru, mae’r pedwar sydd wedi eu cwblhau wedi darparu’r manteision canlynol:

- Dros 900 awr o brofiad gwaith
- Darparu dros 1,000 o oriau hyfforddiant
- 320 Wythnos NVQ/ Prentisiaethau
- Recriwtiwyd 9 person graddedig
- Crëwyd 17 swydd barhaol ar gyfer pobl ddi-waith
- 4,000 o ddisgyblion ysgol yn gysylltiedig â digwyddiadau ymgysylltu
- 70 o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol, gyda 900 yn mynychu
- Ar gyfartaledd, mae 80% o’r gadwyn gyflenwi yn dod o radiws 30 milltir i’r prosiect
- 30 lleoliad gwaith ar gyfer unigolion NEET (Ddim mewn Gwaith, Addysg na Hyfforddiant) (mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth y Tywysog)

Darparwyd y manteision hyn trwy ddull cydweithredol rhwng yr awdurdodau contractio a’r contractwyr ar y fframwaith, a hwyluswyd gan Swyddogion Sir Ddinbych sy’n rheoli'r fframwaith. Mae’r dull llwyddiannus hwn wedi cael ei gydnabod trwy’r gwobrau canlynol:

- Enillydd Gwobr Rhagoriaeth Adeiladu Cymru “Integreiddio a Gweithio Cydweithredol”;
- Rownd derfynol Gwobr Rhagoriaeth Adeiladu (y DU) “Integreiddio a Gweithio Cydweithredol”;
- Enillydd gwobr BIM (Building Information Management) “Framework Exemplar Project”

### 4.2 Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru'r Genhedlaeth Nesaf

Bydd Adnewyddu’r Fframwaith yn sicrhau mecanwaith effeithiol ar gyfer darparu cam nesaf y rhaglen Ysgolion y 21 Ganrif, yn ogystal â gwaith adeiladu adeiladau cyhoeddus eraill neu ailwampio ar raddfa fawr. Mae manylion Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru'r genhedlaeth nesaf wedi eu hamlinellu yn yr Achos Busnes sydd ynghlwm fel Atodiad 1. Y dull yw magu ar gryfderau a llwyddiannau’r fframwaith cyfredol, wrth wneud newidiadau i wella perfformiad. Mae’r newidiadau allweddol i’r fframwaith newydd yn cynnwys:

- Newid yn y modd caiff prosiectau eu ‘lotio’ yn ôl gwerth i ddarparu mwy o gyfleoedd i gontractwyr llai;
- Mwy o bleidlais ar ddarparu manteision cymunedol, megis gofynion hyfforddiant a datblygu cadwyni cyflenwi lleol;
- Cyflwyno ffi codi tâl fframwaith i ostwng cost y fframwaith i'r chwe awdurdod lleol, lle codir ffi ar gontractwyr fesul prosiect (mae manylion y ffioedd yn yr Achos Busnes – Atodiad 1) (gweler adran 6 am fanylion pellach ar gostau).

Gyda mwy o lotiau, trothwyon gwerth is a mwy o gontractwyr ar y fframwaith newydd mae angen am Dîm Rheoli Fframwaith ychydig uwch. Bydd y tîm hwn yn cael ei gynnal gan Sir Ddinbych, a bydd y cysondeb hwn yn sicrhau ein bod yn magu ar lwyddiant y Cytundeb Fframwaith cychwynnol a gwella effaith y fframwaith o ran:

- Ymgysylltu â chontractwyr i uchafu'r manteision cymunedol ac i gefnogi a datblygu cadwyni cyflenwi lleol;
- Gweithio gyda thimau datblygu economaidd i ddatblygu ymgyrchoedd lleol lle mae bylchau'n bodoli yn y gadwyn gyflenwi; a
- Pharhau i weithio gyda sefydliadau addysgol i ddarparu gwell hyfforddiant a chyfleoedd datblygu a lleoliadau gwaith.

Mae'r Fframwaith yn gerbyd cydweithredol i ddarparu prosiectau adeiladu ar draws y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru, dos dim gorfodaeth i'w ddefnyddio, gan y gall cleientiaid ddewis eu llwybr caffael dewisol, does dim gofyniad gwario isafswm, fodd bynnag unwaith gwneir y penderfyniad i ddefnyddio'r Fframwaith, mae angen i brosiectau gydymffurfio â'r Cytundeb Fframwaith.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd Fframwaith wedi'i hadnewyddu yn cefnogi blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol cyfredol (2012—2017) o ran:

- Datblygu'r economi leol – trwy weithio gyda chyflenwyr a darparu buddiannau cymunedol; a
- Gwella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion – trwy ddarparu mecanwaith i adeiladu adeiladau ysgolion newydd ac ailwampio adeiladau presennol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd y gost o sefydlu trefniadau fframwaith newydd yn cael ei diwallu trwy'r trefniadau ariannu ar gyfer y fframwaith presennol, felly ni fydd unrhyw gostau ychwanegol ar y Cyngor am hyn.

Gan symud ymlaen, bydd y fframwaith newydd angen yr un ymrwymiad o £15K y flwyddyn fel y fframwaith presennol, a chyllidebir ar gyfer y swm hwn eisoes o gyllidebau gweithredol cyfredol. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi cyflogi'r Tîm Rheoli Fframwaith a'r gweithgarwch cysylltiedig (manylion yn yr Achos Busnes – Atodiad 1). Bydd y cyfraniad blynyddol hwn yn cael ei ostwng neu hyd yn oed ei ad-dalu yn llawn os bydd yr incwm a gynhyrchir trwy'r Fframwaith yn diwallu'r rhagolygon cyfredol. Bydd penderfyniadau ynghylch sut bydd unrhyw incwm dros ben a gynhyrchir trwy'r Fframwaith yn cael ei wario yn cael ei gytuno gan Fwrdd Rheoli Strategol y Fframwaith – sydd â chynrychiolaeth uwch swyddogion o bob un o chwe awdurdod Gogledd Cymru (Rebecca Maxwell yw cynrychiolydd Sir Ddinbych ar y Bwrdd hwn). Dylai incwm o'r fath gael ei wario ar hyfforddiant ychwanegol neu fentrau cadwyni cyflenwi, neu o bosibl ei rannu rhwng yr awdurdodau partner.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan <http://wellbeing.denbighshire.gov.uk/>, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn

Bydd y Fframwaith yn cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar genedlaethau'r dyfodol o fewn Sir Ddinbych a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru, trwy:

- ddatblygu adeiladau ysgol newydd a gwell ( a ddylai yn eu tro arwain at well cyrhaeddiad addysgol);
- uwch-sgilio'r gweithlu trwy gyfleoedd hyfforddiant a lleoliad gwaith niferus; a
- datblygu'r economi leol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer contractwyr lleol.

Ar gyfer yr Asesiad Effaith ar Les, gweler Atodiad 2

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Mae'r cynigion ar gyfer adnewyddu Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru wedi cael eu datblygu trwy gynnwys ac ymgynghori ag uwch reolwyr, gweithwyr proffesiynol ym maes adeiladu a chaffael o fewn y chwe awdurdod lleol sy'n bartneriaid yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â sefydliadau sector cyhoeddus eraill sy'n awyddus i ddefnyddio'r Fframwaith. Bu hefyd cysylltiad oddi wrth y contractwyr ar y fframwaith presennol a chontractwyr lleol eraill sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o'r trefniadau Fframwaith newydd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae cyfraniad ariannol y cyngor i'r fframwaith yn ymrwymiad sy'n bodoli eisoes. Mae'r ffi flynyddol yn seiliedig ar y gost o reoli'r fframwaith, wedi'i rhannu rhwng chwe chyngor. Pe bai llai o gynghorau yn rhan, yn amlwg byddai'r cyfraniad oddi wrth y cynghorau sy'n weddill yn cynyddu. Dylai'r fframwaith ddarparu modd effeithlon o gaffael contractau sylweddol a darparu gwerth am arian.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nodwyd y risgiau allweddol canlynol a byddant yn cael eu rheoli gan Dîm Rheoli'r Fframwaith:

- Her gyfreithiol o ran y broses gaffael – fe'i rheolir trwy fewnbwn cyngor cyfreithiol arbenigol o ran y broses a llunio'r ddogfennaeth angenrheidiol;
- Diffyg cyllid ar gyfer prosiectau adeiladau yn golygu na ddefnyddir cymaint y Fframwaith – derbynnir y risg hon ond y disgwyliad yw gan gynghorau a Llywodraeth Cymru yw y bydd y rhaglen Ysgolion y 21 Ganrif yn parhau i gael ei ariannu;
- Diffyg cydweithrediad a chydweithio rhwng y chwe awdurdod partner yn effeithio ar ddarparu - derbynnir hyn er bod trefniadau partneriaeth cadarn a hynod lwyddiannus wedi cael eu magu yn ystod hyd oes y fframwaith presennol;
- Ni fydd yr incwm a gynhyrchir yn cwrdd â'r hyn a ragwelwyd – yn y senario hon, byddai rheolwyr y fframwaith yn parhau i gael eu hariannu trwy gyfraniad blynyddol pob un o'r cynghorau o £15K, ond byddai'r ad-daliad i bob cyngor yn is;
- Manteision cymunedol ddim yn cael eu gwireddu – yn cael ei reoli gan ymgysylltiad rhagweithiol y Tîm Rheoli Fframwaith.

11. Grym i wneud y Penderfyniad

Mae'r grym i wneud penderfyniad wedi'i gynnwys yn a2 Deddf Llywodraeth Leol 2000, a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Rheol 33 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.